**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

15 Medi 2023

Annwyl Julie,

Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) 2023

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Medi 2023 mewn perthynas â'ch bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU osod Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) 2023, a gafodd eu gosod gerbron Senedd y DU ar 4 Medi.

Yn ein cyfarfod ar 11 Medi 2023, buom yn trafod eich llythyr a'r manylion ynddo. Mae nifer o faterion yr hoffem roi sylw manylach iddynt.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb i'n cwestiynau, sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn, erbyn 28 Medi 2023.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Atodiad

1. Rydych yn nodi eich bod wedi cael llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon, y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig, yn gofyn am eich cydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau yn *Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023* (Deddf Cyfraith yr UE). Byddwch yn ymwybodol nad yw Deddf Cyfraith yr UE yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ofyn am gydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn i Weinidog y DU arfer pŵer dirprwyedig mewn maes datganoledig o dan y Ddeddf honno.

    i. A fyddech cystal â chadarnhau a darparu manylion y broses gydsynio a ddilynwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau.

    ii. A fyddech cystal â chadarnhau yr ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ar delerau'r Rheoliadau fel rhan o'r strwythurau fframwaith cyffredin perthnasol, fel yr awgrymir ym Memorandwm Esboniadol drafft i'r Rheoliadau.

2. Er bod eich llythyr yn nodi bod y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan baragraff 5(5) o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE, ein dealltwriaeth ni yw bod y paragraff hwnnw'n nodi'r weithdrefn seneddol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan bwerau amrywiol yn Neddf Cyfraith yr UE. Credwn fod y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r pŵer 'dirymu a disodli' adran 14(2) yn Neddf Cyfraith yr UE. Nid yw'n ymddangos bod y Rheoliadau yn arwain at ddirymu neu ddisodli Deddf Cyfraith yr UE na'i gymhathu i'r llyfr statud domestig.. Yn eich llythyr rydych yn nodi bod y Rheoliadau yn cywiro gwall technegol a wnaed mewn offeryn diwygio blaenorol.

    i. A fyddech cystal â chadarnhau ein dealltwriaeth bod y Rheoliadau yn arwain at ddirymu neu ddisodli Deddf Cyfraith yr UE na'i gymhathu i'r llyfr statud domestig..

    ii. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal unrhyw asesiad o'r pŵer penodol yn Neddf Cyfraith yr UE sy'n cael ei ddefnyddio i wneud y Rheoliadau?

    iii. Ein dealltwriaeth ni yw bod paragraff 5(5) o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE yn rhoi'r dewis i Weinidog y DU ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn negyddol 'gwnaed'. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal unrhyw asesiad o'r dewis o weithdrefn graffu y mae Llywodraeth y DU yn ei dilyn?

    iv. Byddwch yn ymwybodol bod y pwerau yn adran 14 o Ddeddf Cyfraith yr UE wedi'u cyfyngu i ddirymu neu ddisodli'r gyfraith y mae awdurdod cenedlaethol perthnasol yn ystyried nad yw'n cynyddu'r baich rheoleiddiol mewn maes pwnc penodol. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a oedd ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r

Rheoliadau yn cynnwys asesiad o sut y maent yn cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn ac a oes unrhyw gynnydd posibl i'r baich rheoleiddiol? Os felly, a fyddech chi'n ei rannu â'r Pwyllgor?